CC7- Taliadau Ex Gratia gan Elusennau (Fersiwn 12/01)

Cynnwys Tudalen

Am beth mae'r cyhoeddiad hwn?	1
Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir	1
Beth yw taliad ex gratia?	3
Taliadau eraill sydd angen awdurdod neu gyngor	3
Ar ba awdurdod gall ymddiriedolwyr wneud taliadau ex gratia?	4
Pwy all wneud cais am awdurdod i wneud taliad ex gratia?	5
Gwneud taliadau ex gratia o eiddo a adawyd mewn ewyllys	5
Taliadau ex gratia nad ydynt yn ymwneud ag eiddo a adawyd mewn ewyllys	7
Beth yw ystyr "rheidrwydd moesol"?	7
Sut dylech chi wneud cais i ni	8
Os yw'n cynnwys mwy nag un elusen	9
Cyfeiriad at y Twrnai Gwladol	9
Beth sy'n digwydd os yw cais yn cael ei wrthod?	10

Am beth mae'r cyhoeddiad hwn?

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn disgrifio'r trefniadaethau y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusennau eu dilyn os ydynt am wneud taliad ex gratia o gronfeydd yr elusen.

Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir

2. Yn y cyhoeddiad hwn:

Mae **taliad** yn cynnwys:

- ymddiriedolwyr yn ildio'r hawl i arian neu eiddo y gall yr elusen ei hawlio'n gyfreithiol ond efallai nad ydynt wedi'i dderbyn eto;

- taliad o arian gan ymddiriedolwyr o gronfeydd presennol yr elusen;

- ymddiriedolwyr yn trosglwyddo rhan o eiddo presennol yr elusen, heblaw arian.

Mae **ymddiriedolw**yr yn golygu **ymddiriedolwyr elusennau**, sef y bobl sy'n gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol yn unol â dogfen lywodraethol yr elusen. Yn nogfen lywodraethol yr elusen gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, yn ymddiriedolwyr rheoli, yn aelodau'r pwyllgor, yn llywodraethwyr neu'n gyfarwyddwyr, neu gall fod enw arall arnynt.

Ystyr **Deddf 1993** yw Deddf Elusennau 1993.

Ystyr **dogfen lywodraethol** elusen yw unrhyw ddogfen sy'n pennu dibenion yr elusen ac, fel arfer, y dull o'i gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, yn femorandwm ac erthyglau cwmni, yn ewyllys, yn drawsgludiad, yn Siartr Frenhinol, yn Ddeddf Seneddol neu'n Gynllun gan y Comisiynwyr.

Ewyllyswr (neu **ewyllyswraig**) yw'r sawl sydd wedi gwneud ewyllys.

Defnyddir **argymhellir** neu **gynghorir** pan fyddwn yn awgrymu camau i'r ymddiriedolwyr eu cymryd sy'n arfer dda yn ein barn ni, ond nid yw'n ofynnol iddynt eu cymryd dan y gyfraith.

Defnyddir **rhaid** i gyfeirio at y camau y mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr, neu eu hasiantau neu eu gweithwyr, eu cymryd dan y gyfraith.

Beth yw taliad ex gratia?

3. Nid oes ystyr cyfreithiol penodol i'r term "taliad ex gratia", ond fe'i defnyddir yn yr arweiniad hwn fel ffordd gyfleus o ddisgrifio taliad a wneir gan elusen mewn amgylchiadau arbennig. Mae'r amgylchiadau fel a ganlyn:

- pan fo'r ymddiriedolwyr o'r farn eu bod dan reidrwydd moesol i wneud y taliad; ond
- nid yw'r ymddiriedolwyr dan unrhyw reidrwydd moesol i wneud y taliad; ac
- nid oes gan yr ymddiriedolwyr unrhyw rym dan ddogfen lywodraethol yr elusen i wneud y taliad; ac
- ni all yr ymddiriedolwyr gyfiawnhau'r taliad fel un sydd er lles yr elusen.

Os nad yw ymddiriedolwyr yn sicr a yw taliad arfaethedig arbennig yn daliad ex gratia neu beidio, dylent ymgynghori â ni.

Taliadau eraill sydd angen awdurdod neu gyngor

4. Ceir taliadau eraill, yn ogystal â thaliadau ex gratia, y gall fod angen i ni eu hawdurdodi neu roi cyngor arnynt, a disgrifir y rhain nesaf.

5. Y cyntaf yw taliad nad oes unrhyw rym neu reidrwydd cyfreithiol ar yr ymddiriedolwyr i'w wneud, ond taliad sydd, yn eu barn nhw, er lles yr elusen i'w wneud. Gallwn awdurdodi taliad o'r fath trwy wneud Gorchymyn dan adran 26 Deddf 1993, ar yr amod bod yr ymddiriedolwyr wedi eu bodloni bod gwneud y taliad yn fanteisiol er lles yr elusen; mewn geiriau eraill bydd yr elusen yn cael budd o wneud y taliad.

6. Mae "manteisiol" yn golygu mwy na "chyfleus" ac mae'n golygu bod rhaid i'r elusen gael mantais bendant.

7. Yr ail yw lle mae ymddiriedolwyr yn ansicr a oes ganddynt yr awdurdod neu beidio dan ddogfen lywodraethol yr elusen neu dan y gyfraith gyffredin i wneud taliad arbennig, neu i gymryd y camau arbennig sydd ganddynt mewn golwg. Gall ansicrwydd o'r fath godi oherwydd, er enghraifft, nad yw grymoedd yr ymddiriedolwyr fel a ddisgrifir yn nogfen lywodraethol yr elusen heb eu mynegi'n glir. Bydd yn briodol yn aml i'r ymddiriedolwyr geisio eu cyngor proffesiynol eu hunain, ond gallwn roi cyngor iddynt.

8. Mae'r rhan fwyaf o'r cyngor y byddwn ni a'n staff yn ei roi yn ein cysylltiad bob dydd ag ymddiriedolwyr yn anffurfiol, ond mae'r grym ganddynt i roi cyngor mwy ffurfiol, dan adran 29 Deddf 1993. Yn gyffredinol byddwn yn rhoi cyngor ffurfiol yn unig ar gyfer achosion o bwysigrwydd arbennig neu sy'n gymhleth yn gyfreithiol. Mae angen i ymddiriedolwyr sy'n ceisio cyngor ffurfiol wneud cais ysgrifenedig, ac mae'n debyg y bydd gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth fanwl am y mater dan sylw.

9. Mae ymddiriedolwyr sy'n gweithredu yn unol â chyngor o'r fath wedi'u diogelu gan y gyfraith rhag atebolrwydd personol am dor-ymddiriedaeth. Er hynny os ydynt yn ein camarwain ni ar unrhyw ffaith faterol (naill ai trwy gam-ddatgan ffeithiau neu drwy beidio â datgelu ffeithiau) neu os ydynt yn dibynnu ar y cyngor tra'n gwybod bod amgylchiadau perthnasol wedi newid, ni fyddant yn cael eu diogelu gan y cyngor.

Ar ba awdurdod gall ymddiriedolwyr wneud taliadau ex gratia?

10. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ymddiriedolwyr elusennau ddefnyddio cronfeydd ac eiddo'r elusen er mwyn hyrwyddo dibenion yr elusen yn unig, ac mewn ffyrdd a amlinellir neu a ganiateir gan ddogfen lywodraethol yr elusen. Yn gyffredinol, ni

chaniateir i ymddiriedolwyr wyro o'r rheolaeth y gyfraith hon a all, ar yr olwg gyntaf, ymddangos ei bod yn gwahardd elusennau rhag gwneud taliadau ex gratia.

11. Er hynny, mewn achos llys a benderfynwyd ym 1969 (**Yn re Snowden Dec'd [1970] 1 Ch 700; [1969] 3 WLR 273; [1969] 3 ALL ER 208**) penderfynodd y barnwr y gallai ymddiriedolwyr elusennau wneud taliadau ex-gratia mewn achosion lle y gallai fod yn deg i ddweud pe byddai'r elusen yn unigolyn y byddai'n anghywir yn foesol iddo wrthod gwneud y taliad. Penderfynodd y Llys y gallant wneud hynny **ar yr amod** eu bod yn derbyn awdurdod y Llys neu'r Twrnai Gwladol yn gyntaf. Mae Adran 27 Deddf 1993 yn ymestyn yr egwyddor hon i'n galluogi ni, yn ogystal â'r llys a'r Twrnai Gwladol, i roi'r awdurdod angenrheidiol i'r ymddiriedolwyr wneud y taliad. Wrth ddefnyddio eu grym i awdurdodi taliadau ex gratia, rydym ni yn destun arolygaeth y Twrnai Gwladol, ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddir ganddo.

Pwy all wneud cais am awdurdod i wneud taliad ex-gratia?

12. Mae'n ofynnol i'r cais gael ei wneud gan ymddiriedolwyr yr elusen sy'n gallu hawlio'r cronfeydd y bwriedir gwneud y taliad ohono, er y gall yr ymddiriedolwyr, wrth gwrs, gyfarwyddo eu cyfreithiwr, neu gynghorydd arall, i wneud cais ar eu rhan. Ni allwn dderbyn ffurflen gais gan y sawl a fyddai'n cael budd o'r taliad ex gratia, neu gan weithredwyr ewyllys nad ydynt yn ymddiriedolwyr elusennau eu hunain.

Gwneud taliadau ex gratia o eiddo a adawyd mewn ewyllys

13. Roedd yr achos llys y soniwyd amdano yn gynharach (y cyfeirir ato yn syml fel "**Re Snowden**") yn ymwneud â rhoddion a adawyd i elusennau penodol mewn ewyllys, ac mae'r

cwestiwn o daliad ex-gratia yn codi yn fwyaf cyffredin (ond nid bob amser) yn yr amgylchiadau hyn.

14. Weithiau bydd elusen yn derbyn rhodd mwy o faint na'r hyn a fwriadwyd gan yr ewyllyswr oherwydd pwynt technegol cyfreithiol neu esgeulustod ar ran yr ewyllyswr. O ganlyniad bydd unigolyn arall neu unigolion eraill yn cael ei amddifadu o arian neu eiddo y bwriadodd yr ewyllyswr i'r unigolyn hwnnw ei dderbyn.

15. Er bod hawl gyfreithiol gan yr elusen i gadw'r rhodd gyfan a dderbyniwyd, gall ymddiriedolwyr yr elusen ddod i'r casgliad bod rheidrwydd moesol arnynt i wneud taliad ex-gratia i'r unigolyn o hawl yr elusen er mwyn iddo/iddi dderbyn yr hyn y bwriadodd yr ewyllyswr iddo/iddi ei dderbyn. Os yw'r ymddiriedolwyr am wneud hyn, mae'n rhaid iddynt gael ein hawdurdod ni cyn gwneud y taliad.

16. Ar y llaw arall, prin fydd yr achosion lle y mae'n briodol i'r ymddiriedolwyr wneud taliad ex gratia lle y bwriadodd yr ewyllyswr adael ei eiddo i'r elusen heblaw lle mae'r perthnasau yn teimlo nad oedd wedi'i gyfiawnhau'n foesol i'w adael i elusen yn hytrach nag iddynt hwy. Mae hawl gan yr ewyllyswr werthu ei eiddo fel y dymunai, ac nid yw'r ffaith bod y perthnasau yn siomedig am nad ydynt wedi derbyn yr arian yn rheswm ynddo'i hun i ymddiriedolwyr deimlo unrhyw reidrwydd moesol tuag at y perthnasau.

17. Os yw'r ewyllyswr wedi gwneud addewid ddifrifol, er nad yw'n rhwymedig yn gyfreithiol, i rywun arall gellir cyfiawnhau taliad ex gratia gan yr elusen os na atebwyd yr addewid honno gan yr ewyllys.

Taliadau ex gratia nad ydynt yn ymwneud ag eiddo a adawyd mewn ewyllys

18. Nid yw achosion sydd heb fod yn gysylltiedig ag ewyllys yn codi yn aml. Ni cheir achos nodweddiadol, ond gall enghraifft gynnwys lle mae rhywun wedi gwneud rhodd i elusen gan gredu yn rhesymol ond ar gam bod ei amgylchiadau personol yn darparu ar gyfer rhoi rhodd o'r maint hwnnw ar yr adeg honno. Os daw yn amlwg yn ddiweddarach bod y rhoddwr, o ganlyniad i'w haelioni i'r elusen, wedi gwneud ei hun yn dlawd, gall ymddiriedolwyr elusennau deimlo rheidrwydd moesol i wneud taliad ex gratia trwy ddychwelyd y cyfan neu ran o rodd y rhoddwr. Bydd yr un rheolau yn gymwys mewn achos o'r fath.

Beth yw ystyr "rheidrwydd moesol"?

19. Cyn cysylltu â ni am awdurdod i wneud taliad ex gratia, dylai ymddiriedolwyr ystyried a oes rheidrwydd moesol arnynt tuag at y person hwnnw.

20. Yn **Re Snowden** uchod, dywedodd y barnwr nad oedd y grym i awdurdodi taliad ex gratia

> "... i'w ddefnyddio'n ysgafn neu ar chwarae bach ond yn hytrach mewn achosion lle y mae'n deg i ddweud pe byddai'r elusen yn unigolyn byddai'n anghywir iddo yn foesol i wrthod gwneud y taliad".

21. Byddwn yn defnyddio'r prawf hwnnw wrth ystyried pu'n ai i awdurdodi taliad neu beidio. Mae angen i ymddiriedolwyr fedru ein darbwyllo ni fod sail resymol ganddynt dros gredu y byddent yn gweithredu'n anfoesol trwy wrthod gwneud y taliad. Dylai ymddiriedolwyr gadw mewn cof na fydd unrhyw arian neu eiddo'r elusen a ddefnyddir i wneud taliad ex gratia ar gael mwyach at ddibenion yr elusen. Felly bydd buddiolwyr yr elusen yn cael eu rhoi dan anfantais trwy benderfyniad yr ymddiriedolwyr i wneud y taliad ex gratia.

22. Dylai pob cais am awdurdod i wneud taliad ex gratia gael ei gyfeirio atom ni yn hytrach na'r Llys neu'r Twrnai Gwladol.

Sut dylech chi wneud cais i ni?

23. Mae angen tystiolaeth bendant arnom i ddangos bod gwneud y taliad ex gratia wedi'i gyfiawnhau. Yn achos taliad ex gratia y bwriedir ei wneud o eiddo a adawyd i'r elusen dan ewyllys, mae angen i'r ymddiriedolwyr amlinellu ffeithiau'r achos mor glir ag y bo modd a darparu'r canlynol:

- copi o'r ewyllys a'i brofeb;
- tystiolaeth i ddangos nad yw'r ewyllys yn cael gwared ag ystad yr ewyllyswr yn y modd y bwriadwyd gan yr ewyllyswr mewn gwirionedd;
- tystiolaeth i ddangos pam gafodd yr ewyllyswr ei rwystro rhag gwireddu ei wir fwriad. Ni fydd yn ddigon i nodi bod yr ewyllyswr wedi mynegi dymuniad i roi budd i rywun os cafodd gyfle i wireddu'r dymuniad hwnnw ond ni wnaeth unrhyw beth yn ei gylch.

24. Mae'n bwysig bod y dystiolaeth yn glir ac yn ddiduedd. Fel rheol ni fyddai datganiad gan rywun sy'n honni bod ganddo/ganddi hawl foesol i gyfran o'r ystad yn ddigon ynddo'i hun, oherwydd nid yw'n ddiduedd. Nid oes angen datganiadau ar lw fel rheol, ond os mai rhywun sydd â diddordeb yng nghanlyniad y cais yn unig sy'n gallu rhoi'r dystiolaeth gryfaf, gall datganiad statudol fod yn briodol.

25. Gall tystiolaeth arall gynnwys:

- datganiadau neu ddatganiadau statudol gan bobl annibynnol ynglŷn â gwir fwriadau'r ewyllyswr;

- datganiadau ysgrifenedig gan yr ewyllyswr ei hun, yn mynegi ei wir fwriadau;

- gweithred y sawl y bwriedir gwneud taliad ex gratia iddo. Gall rhywun yr addawyd etifeddiaeth iddo gan yr ewyllyswr wneud ymrwymiadau neu gymryd camau yn sgîl yr addewid hon.

26. Byddwn yn gofyn i'r ymddiriedolwyr am wybodaeth neu dystiolaeth bellach os ydynt o'r farn bod angen hyn er mwyn ein galluogi ni i ddod i benderfyniad. Os ydym yn penderfynu awdurdodi'r taliad, byddwn yn rhoi ein hawdurdod trwy Orchymyn. Mae angen i'r Gorchymyn gael ei gadw fel tystiolaeth bod taliad ex gratia wedi cael ei wneud gyda'n hawdurdod ni. Mae'n bosib y bydd angen i archwilydd neu arolygydd annibynnol yr elusen ei weld hefyd.

Os yw'n cynnwys mwy nag un elusen

27. Os yw elusen yn gwneud cais am awdurdod ar ran ei hun ac elusen arall, neu nifer o elusennau, mae angen cynnwys datganiad ysgrifenedig gan ymddiriedolwyr pob elusen gyda'r cais. Rhaid i bob datganiad gadarnhau bod yr ymddiriedolwyr yn fodlon eu bod dan reidrwydd moesol ac esbonio'r sail am y gred honno.

28. Mae angen datganiad ar wahân gan bob elusen hyd yn oed os yw pob datganiad yn cyfeirio at y cais a gyflwynwyd gan y brif elusen ac yn mabwysiadu'r rhesymau a nodwyd yn natganiad neu lythyr yr elusen ei hun.

Cyfeiriad at y Twrnai Gwladol

29. Byddwn yn cyfeirio cais am awdurdod i wneud taliad ex gratia at y Twrnai Gwladol:

- os yw'r cyfarwyddiadau a gawn gan y Twrnai Gwladol yn ein rhagwahardd rhag awdurdodi'r taliad ein hunain;

- os ydym o'r farn ei bod yn ddymunol i'r cais arbennig hwnnw gael ei drin gan y Twrnai Gwladol yn hytrach na gennym ni. Mae'n bosib mai dyma fydd yr achos os yw'r cais yn codi mater o egwyddor neu arfer arbennig y mae angen arweiniad y Twrnai Gwladol arno.

Beth sy'n digwydd os yw cais yn cael ei wrthod?

30. Os ydym yn gwrthod gwneud Gorchymyn, gall yr elusen sy'n gofyn amdano wneud cais newydd yn uniongyrchol i'r Twrnai Gwladol a all ganiatáu'r taliad neu wrthod gwneud hynny.

31. Ni ellir gwneud cais i'r Llys am ganiatâd heb Orchymyn gan y Comisiynwyr dan adran 33 Deddf 1993 oherwydd byddai cais o'r fath yn cael ei ystyried yn "weithrediad elusen" o fewn yr adran honno. Os ydym yn gwrthod gwneud Gorchymyn dan adran 33 gellir gwneud cais i'r Llys am Orchymyn o'r fath.

Ein nod yw gwneud ein cyhoeddiadau mor ddefnyddiol a darllenadwy ag y bo modd. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â gwella'r cyhoeddiad hwn, ysgrifennwch at Reolwr yr Uned Cyhoeddiadau yn ein Swyddfa yn Taunton.

Rhagor o Wybodaeth

Efallai y bydd o ddefnydd i chi droi at y cyhoeddiadau canlynol gan y Comisiwn Elusennau:

CC2 Elusennau a'r Comisiwn Elusennau

CC3 Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod

CC11 Talu Ymddiriedolwyr Elusennau

CC36 Diwygio Dogfennau Llywodraethol Elusennau: Gorchmynion a Chynlluniau

CC61 Cyfrifon Elusennau: Y drefn

All of our publications are available in English. For information on availability please call our contact centre on 0845 300 0218.

Am restr gyflawn o'n holl gyhoeddiadau a casetiau sain, gofynnwch am:

CC1 Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau

I gael copïau o unrhyw un o'r cyhoeddiadau uchod, gallwch naill ai:

- edrych arnynt a'u hargraffu o'n gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**;
- eu harchebu yn ystod oriau swyddfa (08:30 - 18:00 yn ystod yr wythnos) trwy ffonio ni ar **0845 300 0218**; neu
- ysgrifennwch i **Comiswn Elusennau, Blwch SP 8585, Adamsway, Mansfield, NG18 9AJ.**

© Hawlfraint y Goron 2002. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu yn fanwl gywir ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael hefyd ar wefan yr adran: www.charitycommission.gov.uk

SEC-G5002 V4 4/02

Nodiadau